# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Rhagfyr 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â'i gymheiriaid yng Nghabinet San Steffan ynghylch cau Swyddfa Fudd-daliadau Aberystwyth, neu unrhyw Swyddfa Fudd-daliadau arall yng Nghymru ac, os felly, a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny, neu os na chafodd drafodaethau o'r fath, a yw'n bwriadu codi'r materion hyn. (WAQ40685)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw ei gymheiriaid yng Nghabinet San Steffan wedi ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y Goruchaf Lys arfaethedig ac unrhyw newidiadau cyfreithiol a ddaw yn ei sgil, ac os felly a wnaiff roi manylion unrhyw drafodaethau. (WAQ40686)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (WAQ40678)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â rhanddeiliaid allweddol ynghylch Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hyn. (WAQ40679)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A yw Awdurdod Datblygu Cymru wedi mynd i’r afael ag unrhyw Orchmynion Prynu Gorfodol yn Sain Tathan. (WAQ40661)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A oes gan Awdurdod Datblygu Cymru unrhyw gynlluniau i fynd i’r afael â Gorchmynion Prynu Gorfodol yn Sain Tathan. (WAQ40662)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod dwr yn draenio yn well ar hyd y 'Moors Length' ar yr A483 ger y Trallwng (ar Ffordd Croesoswallt). (WAQ40666)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan cost ei fordaith ar hyd arfordir Cymru ym mis Awst 2003 i Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, a hynny yn ychwanegol at

y gost i Fwrdd Croeso Cymru. (WAQ40667) **W**

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith economaidd unrhyw 'Gasinos Mawr' y bwriedir eu lleoli yng Nghymru. (WAQ40669)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwr yr A487 yng Nghwm Abergwaun yn Sir Benfro. (WAQ40674)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaed asesiad o ddiogelwch ar ffordd yr A487 yng Nghwm Abergwaun yn Sir Benfro, ac os felly, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r manylion ac, os na wnaed asesiad o’r fath, a wnaiff ystyried cynnal asesiad o ddiogelwch ar y ffordd yn y gymuned hon. (WAQ40675)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith cyllid Amcan Un yng Ngheredigion. (WAQ40676)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chyrff yng Ngheredigion ynghylch effaith cyllid Amcan Un, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hyn. (WAQ40677)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adroddiad a baratowyd ar gyfer Cymdeithas Prifathrawon Uwchradd Cymru ynghylch cyllid cymharol ysgolion Cymru a Lloegr. (WAQ40680)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ystyried sefydlu ymchwiliad i gyllid ysgolion uwchradd. (WAQ40681)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gytundeb llwyth gwaith athrawon. (WAQ40682)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa effaith y mae prosiectau peilot y cynllun brecwast mewn ysgolion wedi'i chael ar lwyth gwaith athrawon. (WAQ40683)

**Catherine Thomas (Llanelli);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gyflawni argymhelliad 21.29 Ymchwiliad Clywch mewn perthynas â sefydlu strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaeth cynghori annibynnol i blant yn y byd addysg. (WAQ40690)

**Catherine Thomas (Llanelli);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod amddiffyn plant yn cael lle blaenllaw ar bob cwrs hyfforddi athrawon yng Nghymru. (WAQ40691)

**Catherine Thomas (Llanelli);** Pryd y bydd y Gweinidog yn ymgynghori ar weithredu yng

Nghymru Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n ymwneud â dyletswyddau AALlau a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles disgyblion. (WAQ40692)

**Catherine Thomas (Llanelli);** Pryd y mae'r Gweinidog yn gobeithio cyhoeddi'r canllawiau terfynol ar sefydlu Cynghorau Ysgolion yng Nghymru. (WAQ40693)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y penderfyniad i beidio â dynodi Gwyr yn ardal wledig mewn perthynas â'r Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig. (WAQ40663)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch hawliau preswylwyr lleol i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio. (WAQ40664)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p'un a oes rheol glustogfa, fel ag y ceir yn yr Alban, yn bodoli yng Nghymru o ran agosrwydd cynlluniau cloddio glo brig at ardaloedd preswyl. (WAQ40665)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd a ddaw i gyllideb y Cynulliad yn sgil yr Adroddiad cyn y Gyllideb. (WAQ40688)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynrychiolaeth y gwrthbleidiau ar bwyllgorau craffu yn yr awdurdodau lleol. (WAQ40684)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chymheiriaid yn San Steffan am yr Adroddiad cyn y Gyllideb. (WAQ40689)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi cyfraddau heintio MRSA yn yr ysbytai sy'n rhan o Gynllun yr Ail Gynnig. (WAQ40660)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa ofynion y mae disgwyl i ymarferwyr meddygol nad ydynt yn ddinasyddion y DU eu cyflawni cyn iddynt fedru gweithio yn y DU. (WAQ40668)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bresgripsiynau SSRI a roddir gan feddygon teulu. (WAQ40670)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth nyrsys ysgol. (WAQ40671)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drais tuag at staff gofal iechyd. (WAQ40672)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar recriwtio a chadw nyrsys. (WAQ40673)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau Cymunedau'n Gyntaf yn ardal Ystradgynlais ym Mhowys. (WAQ40687)